Ysgol Gymraeg Parc y Tywyn

Nid da lle gellir gwell

**Heol y Bardd, Porth Tywyn,**
**Sir Gaerfyrddin SA16 0NL**
**Ffôn:- 01554 832101**
**Ebost: admin@parcytywyn.ysgolccc.cymru**
www.ysgolparcytywyn.co.uk
**Pennaeth / Headteacher : Mr C Davies**

14/12/2021

# LLYTHYR DIWEDD TYMOR Y NADOLIG

Annwyl rieni/warcheidwaid,

Dyma ni ar drothwy'r Nadolig ac ar fin cyrraedd diwedd y tymor. Hoffwn fanteisio ar y cyfle yma i ddiolch i bawb sydd wedi cefnogi'r gweithgareddau amrywiol yn ystod y tymor ac i ddiolch i chi fel rhieni a ffrindiau'r ysgol am eich cefnogaeth a'ch cydweithrediad parhaus. Heb os, hwn fu un o'r tymhorau mwyaf heriol hyd yma oherwydd COVID gyda phwysau cynyddol ar staffio ac ati. Carwn ddiolch i'r staff am eu teyrngarwch a'u gwaith caled proffesiynol. Mae gwytnwch ac ymroddiad y plant wedi bod yn glodwiw ac rwyf wedi siarad â Sïon Corn fy hun i fynegi fy niolch iddynt ac i sicrhau bod y dyn mawr yn ymweld â phob un.

Mae hwn yn gyfnod heriol iawn i ni i gyd ac mae angen i ni i gyd ymddwyn yn gyfrifol yn ystod yr wythnos nesaf i sicrhau ein bod mor ddiogel â phosibl. Yr anrheg orau y gallwn ni i gyd ei dderbyn y Nadolig hwn o dan yr hinsawdd sydd ohoni yw helpu i amddiffyn ein gilydd fel y gallwn ni i gyd fod yn iach a threulio Nadolig iach a hapus gyda'n teuluoedd. Cadwch at ganllawiau'r ysgol a Llywodraeth Cymru h.y. cynnal pellter cymdeithasol, gwisgo gorchuddion wyneb, golchi dwylo, dilyn gweithdrefnau TTP / ynysu cywir, cyfyngu ar y lleoedd rydyn ni'n mynd iddyn nhw yn y gymuned ac ati, er mwyn sicrhau iechyd a diogelwch cymuned gyfan yr ysgol.

Mae llawer o rieni eisoes wedi nodi eu bod, neu y byddant yn cadw'ch plant adref o'r ysgol am gyfnod cyn y Nadolig. Er na fyddwn yn awdurdodi'r absenoldebau hyn, gallaf gadarnhau y byddwn ni fel ysgol yn parchu'ch dymuniadau os cymerir y penderfyniad hwn. Gyda hyn mewn golwg, byddwn yn gofyn yn gwrtais ichi I gysylltu a'r swyddfa neu anfon ebost at Mrs Gower yn y swyddfa (admin@parcytywyn.ysgolccc.cymru) er mwyn ein hysbysu o'ch penderfyniad i gadw'ch plentyn / plant adref yr wythnos nesaf.

**Dyddiadau ysgol**

Cadarnhaf mai diwrnod olaf y tymor fydd dydd Mawrth 21ain o Ragfyr. Bydd yr ysgol yn ailagor i staff a disgyblion ar ddydd Mawrth Ionawr 4ydd 2022. Rydym wedi clustnodi diwrnod HMS ar gyfer dydd Gwener Ionawr 21ain 2022. Mae gwyliau hanner tymor fel a ganlyn: 21-27/02/2022. Gweler isod rai dyddiadau allweddol.

Yr hyn sydd ar ol nawr yw i ddymuno gwyliau diogel ac ymlaciol i bawb; gobeithio y cewch chi Nadolig tangnefeddus a phleserus. Gobeithiaf y daw'r Flwyddyn newydd ag iechyd a hapusrwydd i bawb ac edrychaf ymlaen at weld ein disgyblion i gyd yn dychwelyd wedi adfywio ac yn barod am dymor ysgol newydd ar ddydd Mawrth 4ydd Ionawr 2022.



Yn ddiffuant,
C Davies (Pennaeth)

| Dyddiad | Dosbarth | Digwyddiad |
|---|---|---|
| Dydd Mawrth / Tuesday 21/12/2021 | Ysgol Gyfan / Whole school | Diwrnod olaf y tymor / Last day of term. Chwsitrelliad ffliw (Meithrin Llawn amser i Flwyddyn 6) / Flu vaccinations (Full time nursery to Year 6) |
| 22/12/2021 – 03/01/2022 | Ysgol Gyfan / Whole school | **GWYLIAU NADOLIG / CHRISTMAS HOLIDAYS** |
| 04/01/2022 | Ysgol gyfan / *Whole School* | Dechrau tymor y Gwanwyn i blant / *Start of Spring term for children* |
| 05/01/2022 | Dosbarth / Class : Miss James Bl/Yr 1 + Miss Griffiths Bl/Yr 1+2 | Ymweliad i Gastell Cairew / *Visit to Carew castle* |
| 06/01/2022 | Dosbarth / Class : Miss Evans Bl/Yr 2 + Mrs Davies Bl/Yr 3 | Ymweliad i Gastell Cairew / *Visit to Carew castle* |
| Dydd Gwener / Friday 21/01/2022 | Ysgol gyfan / *Whole School* | Diwrnod **HMS / INSET** day Ysgol ar gau i ddisgyblion / *School closed to pupils* |
| 31/01/2022 – 18/02/2022 | Blwyddyn 5 i gyd / All of Year 5 | Gwersi nofio dwys am x3 wythnos / Intense swimming lessons for x3 weeks |
| 21-27/02/2022 | Ysgol gyfan / *Whole School* | **HANNER TYMOR / HALF TERM** |